‘Croeso cynnes’

Gweddi

Dduw croesawus, rwyt yn ein gwahodd
i’th addoli.
Cynnal ni â’th bresenoldeb,
bwyda ni â’th air,
cryfha ni yn dy wasanaeth
ac anfon ni allan i fyw
bob dydd o’n bywydau, yn dy enw. **Amen.**

Yn y chweched bennod o efengyl Marc cawn Iesu a’r disgyblion yn ceisio dianc o afael y tyrfaoedd i gael llonydd; **‘Oherwydd yr oedd llawer yn mynd a dod ac nid oedd cyfle iddynt hyd yn oed i fwyta.**’ (Mc. 6:31) Ond nid ydynt yn llwyddo, a dywedir yn y bennod sy’n dilyn y bu’n rhaid iddynt fynd i fyny i’r gogledd, i ardal Tyrus a Sidon, sydd heddiw yn Lebanon, i gael gorffwys. Er mai cenedl-ddynion oedd yn byw yno, mae'r sôn am Iesu yn mynd o’i flaen a daw gwraig nad oedd yn Iddewes ato i ofyn iddo iachau ei merch. Yna, a hwythau ar y ffordd yn ôl i Galilea mae dyn mud a byddar yn cael ei gludo at Iesu iddo’i iachau.

Marc 7:24-34 (beibl.net)

Ffydd gwraig o Syro-Phoenicia

Gadawodd Iesu Galilea ac aeth i fyny i ardal Tyrus. Ceisiodd gadw'r ffaith ei fod yn aros yno'n gyfrinach, ond methodd. Yn wir, yn syth ar ôl clywed ei fod yno, daeth rhyw wraig ato a syrthio i lawr o'i flaen – roedd ganddi ferch fach oedd wedi'i meddiannu gan ysbryd drwg. Gwraig wedi'i geni yn Syro-Phoenicia oedd hi, dim Iddewes, ac roedd hi'n pledio ar i Iesu fwrw'r cythraul allan o'i merch.

Dwedodd Iesu wrthi, “Rhaid i'r plant gael bwyta beth maen nhw eisiau gyntaf. Dydy hi ddim yn iawn i bobl daflu bwyd y plant i'r cŵn.”

“Digon gwir, Arglwydd,” meddai'r wraig, “ond mae hyd yn oed y cŵn dan y bwrdd yn cael bwyta briwsion y plant.”

“Am i ti roi ateb mor dda,” meddai Iesu wrthi, “cei fynd adre; mae'r cythraul wedi gadael dy ferch.”

Felly aeth adre, a dyna lle roedd ei merch yn gorwedd ar ei gwely, a'r cythraul wedi'i gadael.

Iacháu dyn mud a byddar

Aeth Iesu yn ei flaen o ardal Tyrus a mynd drwy Sidon ac yna yn ôl i lawr at Lyn Galilea i ardal Decapolis. Yno daeth rhyw bobl a dyn ato oedd yn fyddar ac yn methu siarad yn glir, a gofyn iddo osod ei ddwylo ar y dyn a'i iacháu.

Aeth Iesu a'r dyn i ffwrdd o olwg y dyrfa. Rhoddodd ei fysedd yng nghlustiau'r dyn ac wedyn poeri ar ei fysedd cyn cyffwrdd tafod y dyn. Edrychodd i fyny i'r nefoedd, ac meddai gydag ochenaid ddofn, “Eph-phatha!” (sy'n golygu, “Agor!”) Ar unwaith roedd y dyn yn gallu clywed a siarad yn glir.

Doedd dim llonydd i’w gael! Mae’r hanesion hyn yn dweud mwy na bod Iesu yn brysur a phawb am gael ei sylw, maent yn pwysleisio fod ei weinidogaeth yn croesi ffiniau a’i fod yn barod i newid ei gynlluniau i ateb gofynion unigolion. Er mai bwriad cyntaf gweinidogaeth Iesu oedd dwyn y newyddion da i’r Iddewon, y mae’n ymateb yn gadarnhaol i bobl eraill sy’n dod ar ei ofyn, a chofiwn ei sylw wedi cyfarfod y canwriad Rhufeinig hwnnw ddaeth i ofyn iddo iachau ei was; **‘Yn wir, rwy'n dweud wrthych, ni chefais gan neb yn Israel ffydd mor fawr.’** (Mth 8:10)

Yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym wedi clywed llawer iawn o sôn am bobl Afghanistan sydd wedi gorfod ffoi o’r wlad. Mae llywodraeth Prydain wedi cytuno i dderbyn ugain mil o ffoaduriaid, a bydd pum mil yn cael cymorth i ymgartrefu yma yn weddol fuan. Enw swyddogol y cynllun i’w croesawu yw ‘Ymgyrch Croeso Cynnes’ (Operation Warm Welcome) ac ar y radio fore dydd Mercher diwethaf roedd yna drafodaeth ynghylch beth, tybed, a olyga estyn croeso cynnes iddynt?

(Woman’s Hour, Radio 4 dydd Mercher 1 Medi, 2021 https://www.bbc.co.uk/sounds/play/m000z6cl)

Y peth pwysicaf, meddai rhywun, oedd bod yn garedig ac yn ymwybodol o’r amgylchiadau erchyll yr oeddynt wedi eu hwynebu. Cyrhaedda amryw ohonynt yn dioddef effeithiau trawma, ac wedi gorfod gadael teulu a chyfeillion ar ôl mewn sefyllfaoedd peryglus. Bydd bod yn ystyriol o’u sefyllfa ac yn llawn cydymdeimlad â hwy yn hanfodol; a hyd yn oed os na allwn yn bersonol wneud dim yn ymarferol i’w cynorthwyo, bydd inni fel Cristnogion feithrin agwedd felly yn y gymdeithas leol yn gam gwerthfawr iawn i’w croesawu. Hefyd mae mudiad ‘Pobl i Bobl’ wedi bod yn casglu nwyddau ar gyfer y ffoaduriaid o Afghanistan, ac yr wyf yn siŵr fod amryw ohonoch wedi cefnogi hynny

Mae hanesion y Testament Newydd yn darlunio ymwneud go iawn Iesu â phobl ei gyfnod; weithiau mae’r amser yn anghyfleus, beirniadaeth pobl eraill ohono yn hallt, gwrthwynebiad yr awdurdodau yn chwyrn, a’i gefndir fel Iddew yn awgrymu wrtho, mae’n siŵr, y dylai fod yn wyliadwrus. Ond nid yw Iesu yn ymatal rhag cynorthwyo neb, ac y mae ei esiampl wedi bod yn ysbrydoliaeth i’w ddilynwyr ar hyd y canrifoedd. Meddai’r Parchg Perer M. Thomas, Aberystwyth (C.Ff. 854);

Yn gymaint iti gofio un o'r rhain
a rhannu'n hael dy grystyn gyda'r tlawd,
a chynnig llaw i'r gwan oedd gynt ar lawr
a'i arddel ef yn gyfaill ac yn frawd,
fe'i gwnaethost, do, i'r Un sy'n Arglwydd nef,
a phrofi wnei o rin ei fendith ef.

Yn gymaint iti estyn llaw i'th god
a noddi'r gwaith a wneir mewn estron wlad
i wella cyflwr ac i adfer nerth,
a dwyn y gobaith am gael gwir iachâd,
fe'i gwnaethost, do, i'r Un sy'n Arglwydd nef,
a phrofi wnei o rin ei fendith ef.

Yn gymaint iti gofio'r rhai mewn cell
a rhannu dy gonsýrn i'r gwael eu stad,
a throi ar dro i rannu'r cysur sydd
gan sôn am Un sy'n gariad ac yn Dad;
fe'i gwnaethost, do, i'r Un sy'n Arglwydd nef,
a phrofi wnei o rin ei fendith ef.

Gweddi

Dduw hollgynhwysol a bythol-gariadus,
molwn ac addolwn di.
Gyda thi does dim gogledd na de,
dim gorllewin na dwyrain – dim ffiniau.
Rwyt yn gofalu am bob un ohonom.
Rwyt yn Dduw sy'n iacháu, sy'n ein hiacháu ni
lle bynnag a phryd bynnag y bydd arnom angen i ti ein cyffwrdd –
boed hynny mewn corff, meddwl neu ysbryd.
Edrychwn arnat yn awr,
a'n cariad tuag atat ti yn dân yn ein calonnau.
Amen.

Ctrl a Chlic

https://youtu.be/RVyWvJk7kY0

Manon Lewis – 'Rho dy law'

Gweddi i gloi

Dduw ein Gwaredwr,
rwyt ti'n agor y ffordd i fywyd
trwy gynnig i ni dy gariad.
Gorfoleddwn yn ein rhyddid,
ein hiachâd a'n gobaith.
Dysga ni i fod yn agored i eraill,
ac i groesawu a chynnwys pawb.
Yn enw Iesu.
Amen.

Gweddïau oddi ar wefan Roots Ecumenical Partnership